

## Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 20 Mawrth 2019 yn yr Ystafell Werdd, Parc Llanion 2.00 pm

#### Yn bresennol:

Gwyneth Haywood Cadeirydd yr Awdurdod  
Y Cyngh. Mike James  
Y Cyngh. Di Clements

Tegryn Jones, Prif Weithredwr, ar gyfer eitem 5

1. Ymddiheuriadau  
Dim.
2. Datgan buddiant  
Dim.
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018  
Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.
4. Gwahardd y cyhoedd  
Gwaharddodd y panel y cyhoedd o'r cyfarfod.
5. Adolygu cynnydd ar sail y targedau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer y Prif Weithredwr a chytuno ar yr amcanion ar gyfer 2019- 20

Trafododd y panel adroddiad a baratowyd gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â thargedau'r flwyddyn a thrafodwyd y materion a gododd gydag ef.

Llongyfarchodd y panel y Prif Weithredwr ar y flwyddyn ddiwethaf mewn amgylchiadau anodd.

#### Penderfynwyd:

- a. Bod y panel yn gwbl fodlon â'r perfformiad.
- b. Bod y panel yn awgrymu y dylid canolbwyntio ar y canlynol yn 2019-20:
  - i. Adolygu a rheoli adnoddau'r Awdurdod, i gynnwys proses i glustnodi blaenoriaethau gyda golwg ar bennu cyllideb gytbwys yn 2020-21;
  - ii. Cynnal ymgysylltiad staff ac aelodau er mwyn cael budd o'r ymgysylltiad a rheoli effaith;
  - iii. Ymwneud â chyrff perthnasol i reoli'r amgylchedd wleidyddol, gan gynnwys unrhyw effeithiau yn sgil Brexit;

- iv. Cefnogi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd newydd wrth iddynt ysgwyddo'r rôl newydd o arwain yr Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45pm